**PWYLLGOR ARDAL DWYFOR**

**11/12/17 (5.20PM – 8.00PM)**

**Presennol:-** Y Cynghorydd Sian Wyn Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Anwen Davies, Aled Evans, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Nia Jeffreys, Aled Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, Angela Ann Russell, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion:-** Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Hefyd: Eleri Williams (Rheolwr Gwybodaeth a Gwasanaethau ar y Wefan) ar gyfer eitem 1 isod; Dylan Griffiths (Rheolwr Rhaglenni Datblygu Economaidd) ar gyfer eitem 2 isod; Nia Morris (Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid) a Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol) ar gyfer eitem 3 isod.

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, W. Gareth Roberts a Eirwyn Williams.

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Hunan Wasanaeth**<br><br>Derbyniwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Gwybodaeth a Gwasanaethau ar y Wefan ar brosiect i wella gwasanaeth i gwsmeriaid drwy roi'r gallu iddynt gyflwyno ceisiadau am wasanaeth ar amser cyfleus iddynt. | |
| | Pwynt Gweithredu:<br><br>Aelodau i hyrwyddo'r modd y gellir archebu gwasanaethau'r Cyngor ar lein. | Aelodau |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd**<br><br>Derbyniwyd diweddariad gan y Rheolwr Rhaglenni Datblygu Economaidd ar y Cynllun Cyflogaeth.<br><br>Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a nodi sylwadau | |
| | Pwyntiau Gweithredu:<br><br>• Anfon copi o'r cyflwyniad i'r aelodau;<br>• Aelodau i adnabod busnesau sydd angen cymorth o ran creu swyddi gwerth uchel;<br>• Darparu copi papur o'r Cynllun Cyflogaeth i'r aelodau yn eu twll colomen yn Lolfa'r Aelodau. | BA<br><br>Aelodau<br><br>DG |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd – Y Dyfodol**<br><br>Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol ynglŷn â dyfodol Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd.<br><br>Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a nodi sylwadau | |
| | Pwynt Gweithredu:<br><br>Aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad ac i dynnu sylw'r cyhoedd at y cyfnod ymgynghori ar yr uchod tan 22 Rhagfyr 2017. | Aelodau |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Cyfarfod Nesaf** | |
| | Pwynt Gweithredu:<br><br>Nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 5 Mawrth 2018. | Aelodau |